**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o Gyfarfod Eithriadol y Bwrdd ar 25 Mehefin 2025 Cynhaliwyd yn electronig drwy Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb yng Ngwesty'r Imperial, Llandudno Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Angela Williams | (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tom Fowler<br>(Ar ran Meng Khaw) | (TF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Ian Kent | (IK) | Pennaeth Dros Dro Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Gareth Lucey | (GL) | Archwilio Cymru |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |

*Dechreuodd y cyfarfod am 15:30*

Wedi'i Gadarnhau

| ICC 2025.06.25/1 | Croeso ac Ymddiheuriadau |
|---|---|

Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd mai cyfarfod Eithriadol o'r Bwrdd oedd hwn i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2024/25 yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifon.

**Nododd** y Bwrdd yr Ymddiheuriadau a restrir uchod.

| ICC 2025.06.25/2 | Datganiadau o Fuddiant |
|---|---|

Gofynnodd PB am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

Nododd PV y cyfeiriwyd at yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn yr adroddiad Tâl 2024/25.

| ICC 2025.06.25/3 | Adroddiad Diwedd Blwyddyn: Adroddiad Blynyddol 2024/25 |
|---|---|

Rhoddodd PV ddiweddariad ar Adroddiad Blynyddol 2024/25, gan nodi'r gofyniad i gynhyrchu a chyflwyno adroddiad o'r fath i Lywodraeth Cymru yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon. Cyflwynwyd yr Adroddiadau Drafft i Lywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru ar 9 Mai 2025; ac yna cadarnhaodd y ddau fod yr adroddiadau'n bodloni'r gofynion.

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried y drafft a'r drafft terfynol o'r Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Atebolrwydd ac wedi argymell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo'n derfynol.

Byddai'r Bwrdd yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar gyfer y cyhoedd, i'w lansio yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi.

Cyflwynodd AW y Cyfrifon ar gyfer 2024/25, a oedd wedi bod drwy'r broses Archwilio briodol. Cadarnhaodd i'r Bwrdd fod yr holl ddyletswyddau ariannol wedi'u cyflawni yn dilyn yr Archwiliad hwn. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried ISA 260 Archwilio Cymru ac wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi barn ddiamod.

Rhoddodd NE drosolwg o'r ystyriaeth o'r Adroddiad Atebolrwydd, a'r Cyfrifon yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol; nododd yr adborth cadarnhaol ar y broses gan yr Archwilwyr a'r Tîm Cyllid; roedd dau argymhelliad o'r Archwiliad yn cael eu datblygu a byddent yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Traciwr Archwilio yn y Pwyllgor.

Diolchodd PB i bawb am eu gwaith ar yr adroddiadau hyn, gan nodi'r gwaith eithriadol a adlewyrchwyd yn yr adroddiad Archwilio.

Diolchodd TC i AW, NS ac IK o fewn y Tîm Cyllid, ac i PV a LB o fewn Uned Fusnes y Bwrdd am ansawdd yr adroddiadau ac arweinyddiaeth y broses.

**Derbyniodd** y Bwrdd yr wybodaeth hon a **chymeradwyodd** Adroddiad Blynyddol 2024/25 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

| ICC 2025.06.25/4 | Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf |
|---|---|

Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

Wedi'i Gadarnhau

| |
|---|
| Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Gorffennaf 2025. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 15:42* |

Wedi'i Gadarnhau